Ministry of Justice

# Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol

## Cais am Dystiolaeth

Mae'r Cais am Dystiolaeth hwn yn cael ei lansio ar 8 Ionawr 2024

Daw'r Cais am Dystiolaeth hwn i ben ar 23 Chwefror 2024

Ministry of Justice

# Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol

Cais am Dystiolaeth

2024

**Cais am Dystiolaeth a gynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae hefyd ar gael yn** https://www.gov.uk/government/consultations/local-criminal-justice-board-call-for-evidence

## Ynglŷn â'r Cais am Dystiolaeth hwn

| | |
|---|---|
| **Anelir at:** | Mae'r Cais am Dystiolaeth hwn wedi'i anelu at unrhyw un sydd â diddordeb yn y ffordd mae Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yn gweithredu. Bydd hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, aelodau'r Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol, sefydliadau System Cyfiawnder Troseddol (CJS) lleol a chyrff nad ydynt yn rhan o'r CJS sy'n rhyngweithio â Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol. |
| **Hyd:** | O 08/01/2024 hyd at 23/02/2024 |
| **Cyflwyno ymholiadau:** | Lle bo'n bosibl, byddai'n well gennym petai ymholiadau'n cael eu hanfon drwy neges e-bost at:<br>E-bost: lcjb.evidence@justice.gov.uk<br><br>CJS Insights Team<br>Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>London SW1H 9AJ |
| **Sut i ymateb:** | Atebwch y Cais am Dystiolaeth hwn drwy'r holiadur arolwg ar-lein. Os nad ydych chi'n gallu ymateb fel hyn, anfonwch eich ymateb mewn neges e-bost at:<br>E-bost: lcjb.evidence@justice.gov.uk<br>CJS Insights Team<br>Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>London SW1H 9AJ |
| **Papur ymateb:** | Bydd ymateb i'r Cais am Dystiolaeth hwn yn cael ei gyhoeddi ar ddyddiad sydd i'w gadarnhau. |

# Cynnwys

**Cyflwyniad** **2**

Cefndir y Cais am Dystiolaeth hwn 3

**Cwestiynau** **6**

1. Strwythur Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol 6

2. Gweinyddu Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol 7

3. Cyflawni a Gwneud Penderfyniadau 8

4. Defnyddio Data a Rheoli Perfformiad 10

Sylwadau neu Awgrymiadau Ychwenegol 11

**Amdanoch chi** **13**

Grwpiau cynrychioliadol 15

**Manylion cyswllt a sut i ymateb** **16**

Cwynion a sylwadau 16

Cyhoeddi ymateb 16

Cyfrinachedd a Diogelu Data 16

Egwyddorion ymgynghori 17

# Cyflwyniad

1. Mae'r Cais am Dystiolaeth hwn yn gofyn am dystiolaeth gan bob parti sydd â diddordeb mewn Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol, er mwyn deall yn well yr heriau y mae Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yn eu hwynebu a'r ffordd orau o'u cefnogi.
2. Mae'r Cais am Dystiolaeth hwn wedi'i anelu at yr unigolion canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

   - Staff gweinyddol Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol;
   - Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, fel cadeiryddion y Byrddau;
   - Cynrychiolwyr lleol o Heddluoedd;
   - Cynrychiolwyr lleol o Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS);
   - Cynrychiolwyr lleol o Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (GLITEF);
   - Cynrychiolwyr lleol o Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS), sy'n cynrychioli'r Gwasanaeth Prawf, y Gwasanaeth Carchardai, a'r Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa;
   - Cynrychiolwyr lleol o'r Tîm Troseddau Ieuenctid (TTI);
   - Cynrychiolwyr lleol o'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA);
   - Gweithwyr cyfreithiol proffesiynol o'r gymuned amddiffyn;
   - Darparwyr gwasanaethau dioddefwyr a thystion;
   - Cynrychiolwyr o ddarparwyr gwasanaethau adsefydlu eraill, er enghraifft, iechyd neu Awdurdodau Lleol;
   - Unigolion eraill sydd wedi rhyngweithio â Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol a/neu sydd â diddordeb yn eu gwaith heb fod yn aelod.

3. Nid yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr na dethol, a chroesawir ymatebion gan unrhyw un sydd â diddordeb yn y Cais am Dystiolaeth hwn.
4. Bwriedir i'r dystiolaeth a gesglir fel rhan o'r Cais am Dystiolaeth hwn gael ei defnyddio fel sail i gynigion polisi yn y dyfodol sy'n ymwneud â Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol.
5. Lle bo'n bosibl, dylai ymatebwyr ateb cwestiynau fel unigolion, yn hytrach na fel Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol cyfunol neu sefydliad. Os yw unigolion yn rhan o nifer o Fyrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol, neu os oes ganddynt ddiddordeb ynddynt, mae croeso iddynt ymateb mewn perthynas ag un neu fwy o'r Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol, a gallant nodi pa Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol /

Fyrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol y mae eu hymateb yn berthnasol iddo / iddynt yn yr adran ‘Amdanoch Chi’. Dim ond i gwestiynau sy’n berthnasol iddyn nhw y mae gofyn i ymatebwyr ymateb.

## Cefndir y Cais am Dystiolaeth hwn

1. Mae Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yn fforwm penodedig i sefydliadau ar draws y CJS i ddod at ei gilydd i weithio er lles pawb, ac mewn partneriaeth, i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y CJS ar lefel leol.

2. Mae 41 o Fyrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yn weithredol, sydd wedi’u halinio’n bennaf ag Ardaloedd Heddlu (PFA). Yng Nghymru, yn ogystal â’r 4 bwrdd PFA, ceir “Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru” sy’n dwyn ynghyd y 4 Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol gydag uwch gynrychiolwyr o bartneriaid ehangach fel Llywodraeth Cymru.

3. Mae’r Canllawiau Cenedlaethol ar gyfer Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol[1] yn nodi y dylai Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol gynnwys pobl sy’n gwneud penderfyniadau lleol, gan gynnwys cynrychiolwyr o’r Heddlu, CPS, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, GLITEF, LAA, yr amddiffyniad, y Gwasanaeth Carchardai, y Gwasanaeth Prawf a’r GIG. Dylid gwahodd aelod o’r farnwriaeth neu’r ynadaeth i fynychu’r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, gan nodi mai dim ond ar effeithiau gweithredol y llysoedd y gall y farnwriaeth neu’r ynadaeth gyflwyno sylwadau, nid ar bolisi, ac nad ydynt yn atebol i’r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol mewn unrhyw ffordd.

4. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) sy’n gyfrifol am y berthynas rhwng y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol a Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol. Mae’r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol yn dwyn ynghyd arweinwyr cyfiawnder troseddol ar lefel genedlaethol, i gynnal trosolwg o’r system ac i hyrwyddo dull cydweithredol o fynd i’r afael â’i heriau.

5. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae’r MoJ wedi cynyddu’n sylweddol ei hymgysylltiad â Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol ac arweinwyr lleol er mwyn eu deall a’u cefnogi’n well.

[1] https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6419bed8d3bf7f7ff7d3b3c8/local-criminal-justice-boards-guidance.pdf

6. Er enghraifft, mewn ymateb i'r argymhellion a nodwyd yn rhan dau Adolygiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu[2], ym mis Mawrth 2023 fe wnaeth yr MoJ adnewyddu'r Canllawiau Cenedlaethol ar gyfer Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol[3] ac, ym mis Hydref 2023, cyhoeddodd y Swyddfa Gartref a'r MoJ ganllawiau rhannu data[4] ar y cyd, a thempled o femorandwm cyd-ddealltwriaeth[5] i gefnogi rhannu data lleol. Roedd rhan dau o adolygiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu hefyd yn argymell rhoi Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol ar delerau statudol, gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu fel cadeiryddion, a bydd yr argymhelliad hwn yn cael ei weithredu pan fydd amser Seneddol yn caniatáu hynny.

7. Fodd bynnag, er mwyn cydnabod bod Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yn dal i wynebu heriau, y mae angen ymchwilio mwy iddynt, rydym yn cynnal y Cais am Dystiolaeth hwn.

8. Bydd tystiolaeth a gesglir fel rhan o'r Cais am Dystiolaeth hwn yn cael ei hystyried ar y cyd â gwaith arall sy'n ymwneud â Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol, gan gynnwys ymchwil defnyddwyr sy'n ymwneud â defnyddio data lleol ac offer data, ac yng ngoleuni'r ddyletswydd newydd yn y Bil Dioddefwyr a Charcharorion i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu gynnull cyrff cyfiawnder troseddol i adolygu cydymffurfiad â'r Cod Dioddefwyr yn eu hardal, a fydd, yn ymarferol, yn cael ei gyflawni drwy Fyrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol.

[2] PCC Review Part Two – Parliamentary written statement - https://hansard.parliament.uk/commons/2022-03-07/debates/22030711000009/PoliceAndCrimeCommissionerReviewPart2

[3] https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6419bed8d3bf7f7ff7d3b3c8/local-criminal-justice-boards-guidance.pdf

[4] https://assets.publishing.service.gov.uk/media/652cefa56b6fbf000db7567a/data-sharing-guidance-criminal-justice-system.pdf

[5] https://assets.publishing.service.gov.uk/media/652cefdf697260000dccf829/criminal-justice-system-data-sharing-memorandum-understanding-template.odt

Mae fersiwn Saesneg o'r Galwad am Dystiolaeth hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/consultations/local-criminal-justice-board-call-for-evidence

# Cwestiynau

## 1. Strwythur Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol

Rydym am ddeall sut mae Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yn eistedd o fewn tirwedd y CJS lleol a sut mae'r sefyllfa hon yn effeithio ar allu Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol i gyflawni eu rôl yn effeithiol. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yn aml yn wahanol o ran sut maen nhw'n cael eu strwythuro a sut maen nhw'n ymgysylltu â grwpiau lleol eraill. Rydym am ddeall pa strwythurau sydd fwyaf effeithiol, a sut y gellid gwella'r ymgysylltu presennol rhwng Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol a grwpiau lleol eraill.

1. **A oes gan y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn eich ardal unrhyw is-grwpiau, naill ai rhai gweithredol neu strategol, sy'n bwydo i mewn neu allan o'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (e.e. grwpiau gorchwyl a gorffen Dioddefwyr a Thystion)? [Oes / Nac oes]**
    a. **Os mai 'oes' oedd eich ateb, disgrifiwch yr is-grwpiau hyn.**

2. **A yw'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn eich ardal yn ymgysylltu â grwpiau CJS lleol eraill (e.e. Grwpiau Defnyddwyr Llys) neu grwpiau nad ydynt yn rhan o'r CJS (e.e. Canolfannau Diogelu Amlasiantaethol) a/neu Fyrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol eraill? [Ydy / Nac ydy]**
    a. **Disgrifiwch yr ymgysylltu hwn, er enghraifft beth yw pwrpas yr ymgysylltu?**
    b. **Yn eich barn chi, pa mor fuddiol yw'r ymgysylltu hwn? [buddiol iawn / gweddol fuddiol / ddim yn fuddiol iawn / ddim yn fuddiol o gwbl]**
    c. **Yn eich barn chi, a oes unrhyw heriau o ran ymgysylltu? Sut gellid goresgyn yr heriau hyn?**

3. **Yn gyffredinol, mae Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol mewn sefyllfa dda yn y CJS leol i sbarduno gwelliannau lleol. [cytuno'n gryf / cytuno /ddim yn cytuno nac yn anghytuno / anghytuno / anghytuno'n gryf]**
    a. **Disgrifiwch y newidiadau y gellid eu gwneud i sicrhau bod Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol mewn sefyllfa well i sbarduno gwelliannau lleol.**
    b. **Trefniadaeth Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol ar Lefel Ardal Heddlu yw'r trefniant mwyaf effeithiol. [cytuno'n gryf / cytuno /ddim yn cytuno nac yn anghytuno / anghytuno / anghytuno'n gryf]**
    c. **Esboniwch eich ateb i gwestiwn 3.c.**

4. **A oes unrhyw newidiadau y byddech yn eu gwneud i aelodaeth y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn eich ardal leol?**

## 2. Gweinyddu Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol

Rydym am ddeall galluoedd gweinyddu ac adnoddu Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol. Mae gennym ddiddordeb penodol mewn datrysiadau arfaethedig i unrhyw heriau. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod rhai ardaloedd lleol yn credu bod angen cyllid ychwanegol i Fyrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol weithredu'n fwyaf effeithiol, a hoffem ddeall y meysydd penodol lle byddai cyllid yn fuddiol pe bai ar gael rywbryd yn y dyfodol.

5. **A oes unrhyw heriau sy'n gysylltiedig â gweinyddiaeth y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn eich ardal leol? [Oes / Nac oes]**
    a. **Os mai 'oes' oedd eich ateb, disgrifiwch yr heriau hyn a pha newidiadau sydd eu hangen er mwyn i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn eich ardal chi oresgyn yr heriau hyn.**

6. **Mae gan y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn eich ardal ddigon o adnoddau. [cytuno'n gryf / cytuno /ddim yn cytuno nac yn anghytuno / anghytuno / anghytuno'n gryf]**
    a. **Os nad ydych yn cytuno â'r datganiad hwn, esboniwch pam. A pha newidiadau sydd eu hangen er mwyn i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn eich ardal gael digon o adnoddau?**

7. **Pe bai cyllid ychwanegol ar gael yn y dyfodol, a oes unrhyw agweddau ar y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn eich ardal chi a fyddai'n elwa? [Oes / Nac oes]**
    a. **Os mai 'oes' oedd eich ateb, disgrifiwch pa agweddau a pham?**
    b. **Disgrifiwch unrhyw gyfleoedd lle gallai cyllid ychwanegol yrru effeithlonrwydd ac arbedion.**

## 3. Cyflawni a Gwneud Penderfyniadau

Rydym eisiau deall yn well sut mae Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yn gosod blaenoriaethau, yn datrys problemau ac yn gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'u gweithrediad ac ardal leol y CJS. Yn ogystal, mae gennym ddiddordeb yn y ffordd y deellir cyfrifoldebau a phwrpas Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol.

8. **Mae cyfrifoldebau a phwrpas y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn eich ardal yn glir [cytuno'n gryf / cytuno /ddim yn cytuno nac yn anghytuno / anghytuno / anghytuno'n gryf]**
    a. **Os nad ydych yn cytuno â'r datganiad hwn, esboniwch beth sy'n aneglur a pham.**

**<u>Gosod blaenoriaethau'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol</u>**

Rydym am ddeall y broses o osod blaenoriaethau mewn Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol, gan gynnwys yr ystyriaethau sy'n sail i'r penderfyniadau hyn.

9. **A oes gan y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn eich ardal gynllun neu set o flaenoriaethau? [Oes / Nac oes]**

    a. **Os mai 'oes' oedd eich ateb, sut ydych chi'n cytuno â'r blaenoriaethau hyn? A ydynt yn alinio â'r Cynllun Heddlu a Throseddu?**
    b. **Os nad ydynt yn gwneud hynny, pam na?**

**<u>Gwneud penderfyniadau</u>**

Mae gennym ddiddordeb yn y ffordd y mae Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yn gwneud penderfyniadau, yr heriau a wynebir, a'r datrysiadau posibl i'w goresgyn. Yn ogystal, rydym eisiau deall yn well y berthynas rhwng blaenoriaethau a phrosiectau cenedlaethol a sut mae'r rhain yn effeithio ar benderfyniadau'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yn amrywio o ran eu dulliau o wneud penderfyniadau, ac y gall fod heriau sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael â materion lleol sy'n ymwneud â'r CJS.

**10. Disgrifiwch y prif ddylanwadau ar benderfyniadau'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn eich ardal.**

**11. A yw'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn eich ardal yn wynebu unrhyw heriau wrth wneud penderfyniadau? [Ydy / Nac ydy]**
   **a. Os mai 'ydy' oedd eich ateb, disgrifiwch yr heriau hyn a pha newidiadau sydd eu hangen er mwyn i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn eich ardal chi oresgyn yr heriau hyn.**

**12. Yn eich barn chi, faint o ddylanwad ddylai blaenoriaethau a phrosiectau cenedlaethol ei gael ar benderfyniadau'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol? [llawer o ddylanwad / rhywfaint o ddylanwad / dim dylanwad o gwbl]**
   **a. Sut dylai blaenoriaethau a phrosiectau cenedlaethol ddylanwadu ar benderfyniadau'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol?**

**<u>Datrys problemau</u>**

Mae gennym ddiddordeb yn y ffordd y mae Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yn datrys problemau ac unrhyw heriau y maent yn eu hwynebu wrth wneud hyn. Yn ogystal, rydym am gael gwell dealltwriaeth o'r berthynas rhwng y System Cyfiawnder Troseddol (CJS) genedlaethol a lleol, yn benodol wrth godi pryderon lleol a gyrru blaenoriaethau cenedlaethol.

**13. A yw'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn eich ardal yn eich galluogi i ddatrys problemau lleol? [Ydy / Nac ydy]**
   **a. Os mai 'nac ydy' oedd eich ateb, pa newidiadau allai'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn eich ardal eu gwneud i'ch galluogi i ddatrys materion lleol yn haws?**

**14. Yn eich barn chi, a oes unrhyw heriau o ran codi pryderon lleol ar lefel genedlaethol? [Oes / Nac oes]**
   **a. Os mai 'oes' oedd eich ateb, disgrifiwch yr heriau hyn a pha newidiadau y gellid eu gwneud i oresgyn yr heriau hyn.**

**15. Mae Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yn gyfrwng effeithiol i fwrw ymlaen â chynlluniau polisi cenedlaethol. [cytuno'n gryf / cytuno /ddim yn cytuno nac yn anghytuno / anghytuno / anghytuno'n gryf]**
   **a. Os nad ydych yn cytuno â'r datganiad hwn, esboniwch pam. A beth fyddech chi'n ei newid am Fyrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol i'w gwneud yn gyfrwng effeithiol i wneud hyn?**

# 4. Defnyddio Data a Rheoli Perfformiad

Mae rhywfaint o waith wedi cael ei wneud i gefnogi Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol i ddefnyddio data, er enghraifft cyhoeddi Canllawiau Rhannu Data yn ddiweddar gan y Swyddfa Gartref a'r MoJ ym mis Hydref 2023. Yn ogystal, mae gwaith ymchwil defnyddwyr yn cael ei gynnal i ddeall y defnydd o ddata lleol ac offer data. Fodd bynnag, rydym am gael rhagor o wybodaeth am sut mae Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yn rheoli perfformiad y CJS lleol ac yn defnyddio data.

**<u>Rheoli perfformiad</u>**

Mae tystiolaeth anecdotaidd yn dangos bod Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yn fforwm hollbwysig i sbarduno gwelliannau lleol i'r CJS, felly rydym eisiau deall i ba raddau y mae gan Fyrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol ddealltwriaeth ar y cyd o sut beth yw perfformiad da y CJS lleol a sut mae perfformiad yn cael ei reoli.

16. **Mae gan y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn eich ardal ddealltwriaeth gyffredin o sut beth yw perfformiad da yn yr ardal leol. [cytuno'n gryf / cytuno /ddim yn cytuno nac yn anghytuno / anghytuno / anghytuno'n gryf]**
    a. **Os ydych yn cytuno â'r datganiad hwn, disgrifiwch sut mae'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn gweld perfformiad da a sut y sefydlwyd y ddealltwriaeth gyffredin hon.**
    b. **Os yw'n berthnasol; beth fyddai'n galluogi'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol i sefydlu'r ddealltwriaeth gyffredin hon?**

17. **Disgrifiwch sut mae'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn eich ardal yn rheoli perfformiad lleol i sbarduno gwelliannau?**

**<u>Defnyddio data</u>**

Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yn defnyddio data i wneud penderfyniadau a dylanwadu ar gamau gweithredu o fewn y CJS lleol. Rydym am ddeall sut mae Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yn defnyddio data ac a oes unrhyw heriau'n gysylltiedig â darparu, defnyddio neu ddadansoddi data'r CJS a data nad yw'n ymwneud â'r CJS.

**18. Pa rôl sydd gan ddata yn y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn eich ardal leol? Er enghraifft, ydych chi’n ei ddefnyddio i ddylanwadu ar flaenoriaethau’r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol ?**

**19. Ydych chi’n darparu a/neu’n dadansoddi data o’r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn eich ardal, neu ar ei ran? [Ydw / Nac ydw]**
   **a. Os mai ‘ydw’ oedd eich ateb; Os ydych chi’n wynebu unrhyw heriau o ran dadansoddi data, disgrifiwch nhw fan hyn a disgrifiwch beth allai ddatrys y problemau hyn yn eich barn chi.**

**20. Pa ddata a ddefnyddir gan y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn eich ardal leol a pham?**

**Rhannu data**

Rydym eisiau deall a yw’r prosesau rhannu data cyfredol o fewn Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yn effeithiol, ac os nad ydynt, cael rhagor o fewnwelediad am y rhwystrau sy’n cyfyngu ar rannu data defnyddiol y CJS a data nad yw’n ymwneud â’r CJS ar lefel leol.

**21. A ydych yn teimlo bod y trefniadau rhannu data cyfredol o fewn y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn eich ardal yn diwallu anghenion y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol a sefydliadau unigol? [Ydw / Nac ydw]**
   **a. Os mai ‘nac ydw’ oedd eich ateb; Yn eich barn chi, beth y gellid ei wneud i ddiwallu eich anghenion o ran rhannu data?**

## Sylwadau neu awgrymiadau ychwanegol

**22. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill ar gyfer diwygio, gwelliannau neu argymhellion radical, dylech eu cynnwys yma. Er enghraifft, sut y gallai sefydliadau cenedlaethol y CJS wella eu cefnogaeth i Fyrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol.**

**Diolch i chi am gyfranogi yn y Cais am Dystiolaeth hwn.**

# Amdanoch chi

Mae’r adran hon yn ddewisol, os ydych yn dymuno i’ch ymateb fod yn anhysbys. Fodd bynnag, os hoffech ddarparu’r manylion hyn, defnyddiwch yr adran hon i roi gwybod i ni amdanoch eich hun.

| | |
|---|---|
| **Enw llawn** | |
| **Teitl swydd** neu ym mha rinwedd rydych yn ymateb i’r Cais am Dystiolaeth hwn (e.e. aelod o’r cyhoedd ac ati) | |
| **Dyddiad** | |
| **Enw’r sefydliad/asiantaeth** (os yw’n berthnasol): | |
| **Cyfeiriad e-bost** | |
| **Rhanbarth (amlddewis)**<br>1. Llundain<br>2. Gogledd-ddwyrain Lloegr<br>3. Gogledd-orllewin Lloegr<br>4. Swydd Efrog<br>5. Dwyrain Canolbarth Lloegr<br>6. Gorllewin Canolbarth Lloegr<br>7. De-ddwyrain Lloegr<br>8. Dwyrain Lloegr<br>9. De-orllewin Lloegr<br>10. Cymru | |

| **Bwrdd / Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yn ardal yr atebydd (amlddewis)**<br>1. Avon a Gwlad yr Haf<br>2. Swydd Bedford<br>3. Swydd Gaergrawnt<br>4. Swydd Gaer<br>5. Cleveland<br>6. Cumbria<br>7. Swydd Derby<br>8. Dyfnaint a Chernyw<br>9. Dorset<br>10. Durham<br>11. Dyfed Powys<br>12. Essex<br>13. Swydd Gaerloyw<br>14. Manceinion Fwyaf<br>15. Gwent<br>16. Hampshire ac Ynys Wyth<br>17. Swydd Hertford<br>18. Humberside<br>19. Caint<br>20. Swydd Gaerhirfryn<br>21. Swydd Gaerlŷr<br>22. Swydd Lincoln<br>23. Llundain<br>24. Glannau Mersi<br>25. Norfolk a Suffolk<br>26. Gogledd Cymru<br>27. Gogledd Swydd Efrog<br>28. Swydd Northampton<br>29. Northumbria<br>30. Swydd Nottingham<br>31. De Cymru<br>32. De Efrog<br>33. Swydd Stafford<br>34. Surrey<br>35. Sussex<br>36. Dyffryn Tafwys<br>37. Swydd Warwick<br>38. Gorllewin Mercia<br>39. Gorllewin Canolbarth Lloegr<br>40. Gorllewin Swydd Efrog | |
|---|---|

| | |
|---|---|
| 41. Wiltshire | |
| Os hoffech chi i ni gydnabod ein bod wedi derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn | ☐ (ticiwch y blwch) |
| Y cyfeiriad e-bost i anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod | |

## Grwpiau cynrychioliadol

**Os ydych yn cynrychioli grŵp, neu'n darparu ymateb wedi'i gydlynu ar ran grŵp,** nodwch enw'r grŵp a rhowch grynodeb o'r bobl neu'r sefydliadau sy'n cael eu cynrychioli yn eich ymateb.

**Cadarnhewch a ydych chi'n fodlon i ni gysylltu â chi i gael trafodaeth ddilynol:**

**YDW NAC YDW**

# Manylion cyswllt a sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 23 Chwefror 2024 drwy'r arolwg ar-lein. Os nad ydych chi'n gallu llenwi'r arolwg ar-lein a'ch bod yn dymuno cyflwyno'ch ymateb drwy neges e-bost, anfonwch neges e-bost at lcjb.evidence@justice.gov.uk.

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch y Cais am Dystiolaeth hwn, dylech gysylltu â Thîm Mewnwelediadau'r CJS.

E-bost: lcjb.evidence@justice.gov.uk

CJS Insights Team
Ministry of Justice
102 Petty France
London
SW1H 9AJ

Lle y bo'n bosibl, byddai'n well gennym dderbyn cwynion neu sylwadau drwy e-bost.

## Cyhoeddi ymateb

Bydd ymateb i'r Cais am Dystiolaeth hwn yn cael ei gyhoeddi ar ddyddiad sydd i'w gadarnhau.

## Cyfrinachedd a Diogelu Data

Mae'n bosibl y cyhoeddir neu y datgelir gwybodaeth a roddir wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth (sef, yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i ni drin yr wybodaeth a rowch i ni'n gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod Cod Ymarfer statudol ar waith y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae hwn, ymhlith pethau eraill, yn ymwneud â dyletswyddau i gadw cyfrinachedd. Yng ngoleuni hyn, byddai'n help i ni petaech yn esbonio pam rydych o'r farn bod yr wybodaeth rydych wedi'i darparu yn gyfrinachol. Os cawn gais am ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni

allwn sicrhau y gallwn gadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG yn cael ei ystyried, ynddo'i hun, yn rhwymol gan y Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data, a gan amlaf, bydd hyn yn golygu na chaiff eich data personol ei ddatgelu i drydydd partïon.

## Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion a ddylai gael eu mabwysiadu gan adrannau Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi cael eu hamlinellu yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa'r Cabinet 2018 sydd ar gael yma:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

**© Hawlfraint y Goron 2023**

Mae’r cyhoeddiad hwn wedi’i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i: nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle’r ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Mae’r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i lcjb.evidence@justice.gov.uk